



www.ysgolbotwnnog.org



YN Y BWLETIN TYMOR YMA

✓ **CYSYLLTU**

✓ **BLYNYDDOEDD 10 AC 11**

✓ **PRESENOLDEB**

✓ **DYDDIADAU**

... **A MWY**

GAIR GAN Y PRIFATHRO

Croeso'n ôl i'r ysgol i bawb yn dilyn y cyfnod hir o ynysu gartref - croeso arbennig i'r 84 disgybl newydd ym mlwyddyn 7.

Rwyf eisoes wedi gyrru gwybodaeth i chi am ein camau i ddiogelu pawb yn ystod y cyfnod anodd yma.

Byddwn yn gyrru bwletin tymhorol i chi gyda gwybodaeth bwysig am ddigwyddiadau dydd-i-ddydd yn yr ysgol gan gynnwys dyddiadau pwysig.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach yna peidiwch ag oedi â chysylltu.

Hysbyswch ni ar unwaith am unrhyw newid i'ch manylion cyswllt - rhif ffôn cartref, symudol neu ebost, os gwelwch yn dda.

Dymuniadau gorau ar gyfer blwyddyn lwyddiannus a phrysur arall.

CYSYLLTU Â'R YSGOL

Os oes unrhyw beth yn eich pryderu ynglŷn â bywyd ysgol eich mab/merch yna cysylltwch â ni:

 **01758 730220**



pennaeth@botwnnog.gwynedd.sch.uk

neu gan ddefnyddio'r ffurflen ar lein ar ein gwefan



www.ysgolbotwnnog.org/cysylltu.php

Mi geisiwn ymateb i'ch pryder o fewn 24 awr.

Ymweld â'r Ysgol

Er diogelwch mae angen i pob ymwelydd gofrestru yn y Brif Swyddfa wrth gyrraedd yr Ysgol.

CYSYLLTU Â'R CARTREF

Byddwn yn ceisio gyrru gwybodaeth i gartrefi ein disgyblion yn weddol aml - gwybodaeth am ddyddiadau pwysig, gweithgareddau ac yn y blaen. Byddwn hefyd angen cysylltu mewn argyfwng o bryd i'w gilydd.

E-bost

Rydym yn ceisio lleihau nifer y llythyrau rydym yn eu gyrru ar bapur. Mae hi'n gallu bod yn fwy cyfleus, cyflym a dibynadwy gyrru neges ar ebost neu hyd yn oed, os oes mater brys yn codi, drwy neges destun.

I wneud hyn mor hwylus â phosibl hoffwn i chi sicrhau bod swyddfa'r ysgol gyda'ch manylion ebost cywir.

Os oes gennych gyfeiriad ebost ond heb dderbyn y bwletin yma drwy ebost a fuasech cystal â gyrru neges i - pennaeth@botwnnog.gwynedd.sch.uk i ddweud hynny gan nodi enw a dosbarth eich plentyn.

Negeseuon Testun

Dylech fod wedi derbyn neges destun gan yr ysgol yn nodi bod y bwletin ysgol ar y ffordd. Unwaith eto, os nad ydych wedi derbyn y neges honno yna cysylltwch â Mrs Nerys Williams yn y swyddfa neu ebostiwch pennaeth@botwnnog.gwynedd.sch.uk

BLWYDDYN 11 - 2019/20

CANLYNIADAU

Llongyfarchiadau i ddisgyblion blwyddyn 11 ar eu canlyniadau haf yma. Oherwydd eu gwaith caled dros eu cyfnod yn yr ysgol, llwyddodd 100% o ddisgyblion blwyddyn 11 i ennill 5 neu ragor o raddau TGAU neu gyffelyb, gydag 87% yn ennill o leiaf 5 gradd C neu well a dros hanner y disgyblion yn ennill o leiaf un gradd A neu A*.

Roedd hi'n gyfnod anodd iawn i ddisgyblion blwyddyn 11. Gan i ni gau ar fyr rybudd ym mis Mawrth, ni chawson nhw'r cyfle i orffen eu blwyddyn ysgol, sefyll eu harholiadau na dathlu a ffarwelio yn y Prom.

Llongyfarchiadau i'r disgyblion a phob dymuniad da iddynt ar gyfer y dyfodol.

Diolch i'r athrawon a'r rhieni am eu cefnogaeth dros gyfnod y disgyblion yma yn yr ysgol.

Gwerthfawrogi'r cardiau a rhoddion, a ddaeth gan ddisgyblion a rhieni, yn diolch i'r ysgol.

BLWYDDYN 11 ELENÍ

Mae hi hefyd wedi bod yn gyfnod anodd i ddisgyblion blwyddyn 11 presennol. Eisoës maent wedi colli cyfran uchel o'u amser dysgu wyneb i wyneb yn yr ysgol. Llwyddodd y mwyafrif llethol ohonynt i gadw i fyny gyda'r gwaith a osodwyd ar lein ac mae'r gwaith dal i fyny eisoës wedi cychwyn yn ôl yn yr ysgol.

Mae Cymwysterau Cymru yn parhau i weithio ar drefniadau ar gyfer eleni i ymateb i unrhyw darfu pellach o addysg y disgyblion oherwydd Coronafeirws. Eisoës maent wedi cyhoeddi rhai newidiadau i gymwysterau TGAU i leihau y baich dysgu ac asesu i'r disgyblion. Mae athrawon y pynciau unigol wedi trafod rhain gyda'r disgyblion.

Y nod gan y Llywodraeth yw bod arholiadau'r haf yn mynd ymlaen fel arfer, ond pwy â wŷr beth sydd yn ein gwynebu yn y cyfamser. Rydym eisoës yn cynllunio a pharatoi rhag ofn ein bod yn gwynebu sefyllfa debyg yr haf nesaf i'r hyn a gawsom eleni - felly mae pob gwaith mae'r disgyblion yn ei gyflawni, gan gynnwys gwaith dosbarth, gwaith cartref, profion a ffug arholiadau, yn bwysicach nac erioed ac o bosib am effeithio ar eu graddau.

BLWYDDYN 10 AC 11

ARHOLIADAU ALLANOL

Bydd disgyblion blwyddyn 10 ac 11 yn sefyll arholiadau **ALLANOL SWYDDOGOL** (sydd **YN** cyfrif tuag at eu graddau terfynol) ar sawl adeg yn ystod y ddwy flynedd - taflen dyddiadau ar ddiwedd y bwletin yma.

ASESIADAU DAN REOLAETH / ASESIADAU DI-ARHOLIAD (*Gwaith cwrs*)

Mae Asesiadau dan Reolaeth ac Asesiadau di-arholiad (*gwaith cwrs gynt*) yn bwysig yn y rhan fwyaf o bynciau TGAU. Maent yn cyfrif rhwng 20% a 100% o'r marc terfynol ym mron bob pwnc.

Mae'r rhain yn cael eu cynnal drwy gydol blwyddyn 10 ac 11 mewn gwahanol bynciau - o'r wers gyntaf ym mlwyddyn 10 tan fis Mai Blwyddyn 11.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn gorfod cael eu cwblhau o fewn hyn a hyn o oriau mewn gwersi dan oruchwyliaeth athro - felly os yw eich mab/merch yn absennol o'r gwersi yna bydd rhaid iddynt ddal i fyny amser cinio neu ar ôl ysgol.

TYSTYSGRIF HER SGILIAU A BAGLORIAETH CYMRU (BAC)

Mae cwrs BAC yn cael ei ddilyn gan bawb ym mlynnyddoedd 10 ac 11. Ym mlwyddyn 10 bydd rhaid cwblhau 3 her fydd yn cael eu hasesu o dan reolaeth a'u marcio yn yr ysgol. Ym mlwyddyn 11 bydd prosiect ymchwil unigol yn cael ei gwblhau gan bawb, wedi ei selio ar ddyheuadau'r disgybl i'r dyfodol. Ar ddiwedd cwblhau'r 4 darn gwaith bydd gradd yn cael ei ddyfarnu — hwn fydd y Dystysgrif Her Sgiliau, sydd yn gywerth â TGAU ac sydd gyda graddau tebyg.

I ennill y gymhwyster BAC rhaid i ddisgybl hefyd basio 5 arholiad TGAU neu gyfatebol gan gynnwys Mathemateg ac Iaith.

STAFF

Croeso i staff newydd

Croeso i Mr Phil Kitchen sydd wedi dod atom i ddysgu Gwyddoniaeth a Mathemateg dros gyfnod mamolaeth Miss Leanne Stedham.

Croeso i Miss Eleri Wyn Williams sydd yn ymuno â ni i ddysgu Ffrangeg yn dilyn ymddeoliad Madame Sautin.

Dymuniadau gorau

Dymuniadau gorau i Madame Marian Sautin ar ei hymddeoliad yn dilyn bron i 20 mlynedd o wasanaeth yn Ysgol Botwnnog. Pob lwc iddi hi a Bernard wrth iddynt gychwyn ar bennod newydd yn eu bywyd. Bonne chance et merci!

TYWYDD GARW A CHAU'R YSGOL

Os cyfyd sefyllfa pan fo rhaid cau'r ysgol oherwydd rhesymau tu allan i'n rheolaeth - tywydd, dim trydan neu ddŵr, ac yn y blaen; byddwn yn ceisio gyrru neges destun i'r cartref i'ch hysbysu. Gallwn yrru neges i bob cartref o fewn munudau er mwyn eich hysbysu - cyn belled fod gennym rif ffôn symudol dilys.

Byddwn hefyd yn rhoi cyhoeddiad ar Radio Cymru ac ar wefan y Cyngor - www.gwynedd.gov.uk cyn gynted â phosibl.

Os oes rhaid cau'r ysgol yn ystod y dydd a bod angen anfon y plant gartref oherwydd ystyriaethau iechyd a diogelwch - dyma fydd y drefn:-

- hysbysu'r cartref drwy ebost a/neu neges destun,
- y plant i fynd gartref ar y bws (os mai felly maent yn dod i'r ysgol),
- wedi dod oddi ar y bws y plant i fynd i'w cartrefi neu i dŷ perthynas neu ffrind (yn ôl eich cyfarwyddyd chi).

FFONAU SYMUDOL

- Ni chaniateir y defnydd o ffonau symudol na theclynau cyfathrebu cludadwy o unrhyw fath yn ystod oriau ysgol (8:30 - 3:35)** gan gynnwys ar y daith i'r gwersi Addysg Gorfforol yn y ganolfan hamdden (bl. 10/11) heb ganiatad penodol gan aelod o staff.
- Os ydych angen cysylltu gyda'ch mab/merch mewn argyfwng gallwch gysylltu gyda swyddfa'r ysgol ac yn yr un modd os oes wir angen i'ch mab/merch eich ffonio chi gallant wneud hynny o'r swyddfa.
- Os ydynt yn dod â ffôn gyda nhw i'r ysgol yna dylid ei diffodd wrth gyrraedd yr ysgol, a'i chadw wedi ei diffodd ac o'r golwg nes iddynt adael tir yr ysgol diwedd y dydd - os dymunant gallant adael eu ffôn yn y swyddfa yn ystod y dydd.
- Os ydi disgyblion yn torri'r rheol yma, byddwn yn cymryd y ffôn oddi arnynt ac yn ei chadw'n ddiogel tan diwedd y dydd.
- Os ydi disgybl yn torri'r rheol fwy nac unwaith, byddwn yn cymryd y ffôn oddi arnynt ac yn ei chadw'n ddiogel hyd nes y byddwch chi yn gallu dod i drafod y sefyllfa a chasglu'r ffôn o'r ysgol.
- Ystyrir caniatáu mynd â ffôn ar deithiau sydd y tu allan i oriau arferol ysgol er hwylustod - ond dim ond i'w defnyddio yn ôl canllawiau'r athrawon sydd yn gyfrifol am y daith.

Nid yw'r ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am achosion o ddwyn, colli neu ddifrod i ffonau symudol na theclynau cyfathrebu cludadwy eraill.

APÊL - LLYFRAU YSGOL

Plîs allwch chi daro golwg i weld os oes gennych lyfrau sydd yn perthyn i'r ysgol.

Mae ambell i ddisgybl yn anghofio dychwelyd gwerslyfrau neu lyfrau llyfrgell.

Buaswn yn gwerthfawrogi petaech yn gallu dychwelyd unrhyw lyfrau o'r fath os gwelwch yn dda.

DIOGELU PLANT

Un o brif flaenoriaethau'r ysgol ydi cadw disgyblion yn ddiogel. Os oes ganddoch amheuan am ddiogelwch unrhyw blentyn yna Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant yr ysgol ydi Mr Aled Williams, neu gallwch gysylltu â Swyddog Sirol Amddiffyn Plant yng Nghaernarfon ar 01286 679552.

PRESENOLDEB

Mae presenoldeb da yn parhau yn flaenoriaeth yn yr Ysgol.

Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn hanfodol os yw'r disgyblion i fanteisio yn llawn ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

ABSENOLDEB - TREFN CYSYLLTU

Er mwyn sicrhau bod pawb sydd i fod yn yr ysgol yn bresennol, gofynnwn i chi gysylltu â'r ysgol **POB bore** unrhyw absenoldeb fel ein bod yn gwybod os yw eich mab/merch i fod yn yr ysgol ai peidio y diwrnod hwnnw.

Gofynnwn i chi adael i ni wybod os yw eich mab/merch yn absennol drwy ffonio 01758 730220 rhwng 8:00 a 9:15.

Os na fydd yr ysgol wedi derbyn galwad ffôn erbyn 9:15 o'r gloch yn dweud wrthym pam nad yw eich plentyn yn yr ysgol, yna byddwn yn cysylltu gyda'r cartref neu'r man gwaith.

Os yw eich mab/merch yn cyrraedd yn hwyr—dylent sicrhau eu bod yn cofrestru yn y swyddfa.

CAIS AM WYLIAU TEULU YN YSTOD Y TYMOR

Mae cyfarwyddiadau gan y Llywodraeth drwy'r Cyngor Sir ynglŷn â chyfrifoldeb yr ysgol wrth awdurdodi gwyliau yn ystod y tymor ym mholisi Presenoldeb y Llywodraethwyr. Er mwyn i ni allu awdurdodi unrhyw wyliau yn ystod y tymor ysgol mae'n rhaid i rieni wneud **cais ysgrifenedig i'r ysgol cyn mynd ar y gwyliau**.

Mae gan Corff Llywodraethu'r Ysgol ddisgresiwn sydd wedi ei ddirprwyo ganddynt i'r Tîm Rheoli i awdurdodi gwyliau ai peidio. Bydd hyn yn dibynnu ar hyd y gwyliau ac unrhyw wyliau blaenorol, cyfradd presenoldeb cyfredol y disgybl, yr adeg o'r flwyddyn ac effaith ar ddilyniant addysgol y disgybl, os yw'n tarfu ar asesiadau / arholiadau. Ni fyddwn yn awdurdodi mwy na 5 diwrnod o wyliau mewn unrhyw flwyddyn ysgol i ddisgyblion blynnyddoedd 7 - 9.

Os na fyddwn yn gallu awdurdodi gwyliau o flaen llaw bydd yn ymddangos fel absenoldeb anawdurdodedig ar record y disgybl.

NI FYDDWN YN AWDURDODI ABSENOLDEB GWYLIAU YN YSTOD Y TYMOR I DDISGYBLION BLYNYDDOEDD 10 AC 11 GAN EI FOD YN ANORFOD AM GAEL EFFAITH AR GYNNYDD EICH MAB/MERCH, ONI BAI BOD YNA AMGYLCHIADAU EITHRIADOL IAWN.

CASGLU EICH PLENTYN YN YSTOD Y DYDD

Os ydych angen casglu eich mab/merch yn ystod y dydd yna mae angen gadael i'r swyddfa wybod. Dylai disgyblion sicrhau eu bod yn cofrestru allan o'r ysgol cyn gadael y safle, a chofrestru yn ôl i mewn os ydynt yn dychwelyd i'r ysgol yn ystod y dydd. Ffoniwch y swyddfa pan rydych wrth y giat yn hytrach na dod ar y safle os gwelwch yn dda.

SALWCH YN YSTOD Y DYDD

Os yw eich mab/merch yn sâl yn ystod y dydd ac angen eu casglu yna bydd aelod o staff yr ysgol yn cysylltu â chi. Nid oes caniatâd i ddisgyblion gysylltu yn uniongyrchol gyda chi i drefnu eu casglu pan fônt yn sâl. Ffoniwch y swyddfa pan rydych wrth y giat yn hytrach na dod ar y safle os gwelwch yn dda.

MEDDYGINIAETH YN YR YSGOL

Os ydych am i'ch plentyn ddod â meddyginiaeth i'r ysgol mae angen **llenwi ffurflen ganiatâd 3B**. Cofiwch fod rhaid i bob meddyginiaeth gael ei gadw yn y swyddfa ac eithrio pwmp asthma (mewn rhai achosion). Mae posib gweld y polisi llawn neu lawrlwytho'r ffurflen ganiatâd ar wefan yr ysgol (RHIENI - DOGFENNAU) neu cysylltwch â'r swyddfa os ydych yn dymuno copi papur.

DYDDIADAU GWYLIAU

TYMOR YR HYDREF 2020 (disgyblion) - Medi 3 - Rhagfyr 18

Gwyliau Hanner Tymor Hydref 24 - Tachwedd 1

Gwyliau Nadolig Rhagfyr 19 - Ionawr 3

TYMOR Y GWANWYN 2021 - Ionawr 4 – Mawrth 26

Gwyliau Hanner Tymor Chwefror 13 - 21

Gwyliau'r Pasg Mawrth 27—Ebrill 11

TYMOR YR HAF 2021 (disgyblion) - Ebrill 12 - Gorffennaf 16

Calan Mai Mai 3

Gwyliau Hanner Tymor Mai 29 - Mehefin 6

Gwyliau'r Haf yn cychwyn i ddisgyblion Gorffennaf 17

DIWRNODAU HYFFORDDIANT STAFF (Dim ysgol i'r plant)

Dydd Mawrth/Mercher Medi 1 / 2

Dydd Llun/ Mawrth..... Gorffennaf 19/20

Byddwn yn cadarnhau diwrnodau hyfforddiant eraill maes o law.

ARDAL DIM CNAU

Am resymau meddygol dwys, ni chaniateir cnau nac unrhyw gynnyrch sydd yn cynnwys cnau yn yr ysgol.

Mae gan rai disgyblion yn yr ysgol alergedd i gnau sydd yn gyflwr peryglus iawn sydd yn gallu arwain at salwch difrifol.

Felly, gofynnwn yn garedig i chi fod yn ofalus wrth baratoi unrhyw focsys bwyd neu fyrbrydau ar gyfer eich plant i sicrhau nad ydynt yn cynnwys cnau na chynnyrch cnau (fel bariau siocled / egni / bisgedi / cacennau).

Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad gyda'r mater pwysig yma.

BWLIO A DIOGELWCH ARLEIN

Pan mae achos o fwlio mae staff yn gwneud eu gorau i rwystro'r bwlio rhag digwydd eto. 'Rydym am i'n pobl ifanc fod yn hapus a diogel yn yr ysgol. Nid ydym am weld unrhyw ddisgybl yn dioddef bwlio. Mae'r disgyblion yn gwybod y gallant gysylltu ag unrhyw aelod o'r staff i adrodd am unrhyw fath o fwlio.

Mi wyddoch hefyd fel rhieni / gwarcheidwaid y gallwch gysylltu â'r prifathro neu'r dirprwy i drafod bwlio neu i adrodd am fwlio.

Gallech hefyd ymweld â gwefan www.bullying.co.uk a llawer o wefannau tebyg am gyngor pellach. (Gweler y dudalen *Gwefannau Defnyddiol* ar wefan yr ysgol <http://www.ysgolbotwnnog.org/gwefannau-defnyddiol.html>)

Ceir llawer o wybodaeth defnyddiol am gadw eich plant yn ddiogel arlein ar wefan [Net-Aware](http://www.net-aware.org) yr NSPCC sydd yn rhoi cyngor penodol am wahanol rwydweithiau cymdeithasol, apps a gemau.

TEITHIO AR FYSUS YSGOL

Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am drefnu cludiant i'r ysgol. Mae gwyboadeth, gan gynnwys amserlenni, sut i wneud cais am gludiant am ddim a pholisi cludiant y cyngor ar gael ar eu [gwefan](http://www.gwefan.org).

Os ydi eich plentyn yn gymwys am pas bws am ddim yna dylent fod wedi ei dderbyn erbyn hyn. Os nad ydynt yna cysylltwch â swyddfa'r ysgol neu gyda'r adran gludiant ysgol 01766 771000. Dylid cario'r pas bws bob dydd i sicrhau cael teithio ar y bws ysgol. Os collir pas bws, rhaid archebu un newydd gan y Cyngor Sir yn swyddfa'r ysgol am £5.

Mae diogelwch ar y bws ysgol yn bwysig iawn. Rhaid i ddisgyblion ymddwyn yn gyfrifol ac yn ddiogel wrth deithio i'r ysgol a rhaid dilyn y rheolau yn y Côt Ymddygiad wrth Deithio ar Fysiau Ysgol. Os nad ydynt yn dilyn y côd hwn, er eu diogelwch nhw a diogelwch pobl eraill, gall yr awdurdod lleol a'r ysgol gymryd camau yn eu herbyn. Gall hyn olygu tynnu'r hawl i gael cludiant i'r ysgol oddi arnynt a hyd yn oed eu gwahardd o'r ysgol.

Gellir gweld y côd ymddygiad drwy glicio [yma](http://www.yma.org).

Nid oes gan yr ysgol yr awdurdod i ganiatâu i unrhyw ddisgybl deithio ar fws gwahanol i'r hyn sydd ar y pas bws, e.e. i fynd i Bwllheli neu i dŷ ffrind neu berthynas arall. Rhaid cadw at y bws sydd wedi ei nodi ar y pas am resymau iechyd a diogelwch.

CEFNOGAETH I'CH MAB/MERCH

Yn Ysgol Botwnnog 'rydym yn ymdrechu i roi'r gofal gorau i bob disgybl ac os yw eich mab/merch yn cael amser anodd neu yn cael trafferthion gyda'u gwaith neu broblemau lles yna mae gennym nifer o arbenigwyr a all eu helpu:

Mr Aled WilliamsDirprwy Brifathro
Mrs Alaw Jones JaphethLles y Merched
Mrs Carol Pilling.....Anogwr Dysgu / Mentor
Ms Deneise Jones Cwnselydd
Mrs Carys Hughes Swyddog Lles Addysg yr Awdurdod
Ms Julie Bulman..... Nyrs Ysgol
Miss Ffion Jones/Mr Eurig Davies.....Cyd-gysylltwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol

Os hoffech i ni gyfeirio eich mab/merch at un o'r uchod yna cysylltwch â Mr Aled Williams, y Dirprwy Brifathro.

GWISG YSGOL

Diolch am eich cydweithrediad gyda'r wisg ysgol.

Hoffwn eich hatgoffa am reolau esgidiau ysgol. Rhaid i unrhyw esgidiau neu trainers fod yn ddu yn unig. Ni chaniateir unrhyw ysgrifen, logos, gwadnau na charrai nad ydynt yn ddu (NID LLWYD!)



GEMWAITH A CHOLUR - NODYN ATGOFFA

Caniateir pâr o styds clust bach ac un fodrwy yn unig (RHAID tynnu rhain yn ystod gweithgareddau Addysg Gorfforol am resymau iechyd a diogelwch) - byddwn yn tynnu sylw disgyblion i unrhyw emwaith arall ac yn gofyn iddynt eu tynnu.

Os ydi disgybl yn gwisgo colur amlwg (gan gynnwys gewinedd lliwgar/ffals) yna byddwn yn tynnu eu sylw at hynny ac yn disgwyl iddynt wneud rhywbeth amdano.

AILGYLCHU GWISG YSGOL

CYDWEITHIO GYDA **tenovus** cancer care
gofal cancer

Mae siop Tenovus, Pwllheli wedi cytuno i gydweithio gyda'r ysgol i werthu gwisg ail-law. Os oes gennych eitemau gwisg ysgol mewn cyflwr da nad ydych eu hangen bellach, yna byddai siop Tenovus, Pwllheli yn falch o'u cael er mwyn eu gwerthu ymlaen.

BANC DILLAD

Cofiwch hefyd am y banc dillad rydym yn rhedeg ar y cyd gydag Antur Waunfawr. Os oes gennych unrhyw ddillad neu decstilau nad ydych eu hangen yna gallwch eu rhoi yn y banc dillad er mwyn eu hailgylchu. Lleolir y banc dillad wrth fynedfa maes parcio'r staff o dan y Bloc Technoleg.



DYDDIADAU ARHOLIADAU - DRAFFT 1 / EXAM DATES - DRAFT 1

Mae'r dyddiadau hyn yn rhai drafft yn unig. Gallant newid yn sgîl datblygiadau tu allan i reolaeth yr ysgol. Byddaf yn eich hysbysu yn syth os oes rhaid eu newid.

These dates are provisional only. They could change due to circumstances beyond school's control. I will inform you immediately if they change.

ARHOLIADAU ALLANOL TGAU BLWYDDYN 10 AC 11 / YEAR 10 AND 11 EXTERNAL GCSE EXAMS

Mae arholiadau TGAU Allanol Swyddogol Haf 2021 wedi eu hamserlennu ar gyfer y dyddiadau canlynol:

GCSE Official External Exams in summer 2021 have been timetabled for the following dates:

14 Mai - 29 Mehefin / 14 May - 29 June

Diwrnod Canlyniadau TGAU / GCSE Results Day

20 Awst / 20 August

Bydd bl 10 ac 11 yn derbyn amserlen unigol yn agosach at y dyddiad / Year 10 and 11 will receive a personal timetable nearer the exams.

ARHOLIADAU MEWNOL / INTERNAL EXAMINATIONS

Ffug Arholiadau Blwyddyn 11 / Year 11 Mock Examinations

Yn sgîl y defnydd o arholiadau ffug fel tystiolaeth tuag at ddyfarnu graddau ar gyfer yr haf diwethaf, mae pwysigrwydd yr arholiadau hyn yn fwy nac erioed. Nid ydym ar hyn o bryd yn sicr beth fydd Llywodraeth Cymru yn ei benderfynu ar gyfer yr haf, ond gallem ganfod ein hunain mewn sefyllfa debyg eto eleni, lle bydd rhaid i'r ysgol bennu graddau i'r disgyblion yn seiliedig ar dystiolaeth mewnol.

Mae adrannau yn trefnu profion ac asesiadau gydol y flwyddyn a bwriadwn gynnal arholiadau ffug yn y cyfnod **3 - 11 Chwefror**.

In light of the use of mock examinations as evidence towards awarding grades for this summer's exams, the importance of the mock exams is greater than ever. At present, we are not sure what the Welsh Government are going to decide for next summer, but we could find ourselves in a similar situation again this year, where school has to state the grade the pupils should receive based on its own evidence.

*Departments are organising their individual tests and assessments throughout the year and we intend that the exams will be held in the period **3 - 11 February**.*

Arholiadau Blwyddyn 10 / Year 10 Exams

Bydd arholiadau blwyddyn 10 yn cael eu cynnal yn y cyfnod **21-28 Ebrill**. Bydd rhai o'r rhain yn ffug arholiadau ar gyfer arholiadau allanol yr haf.

*Year 10 exams will be held in the period **21 - 28 April**. Some of these will be mocks for external exams in the summer.*

Arholiadau Blwyddyn 7-9 / Year 7-9 Examinations

Dyma'r dyddiadau yr ydym yn bwriadu cynnal ein arholiadau mewnol haf nesaf:

These are the dates we intend to hold our internal examinations next summer:

Blwyddyn	Dyddiadau
Year	Dates
7	14 - 25 Mehefin / June
8	23 Mehefin / June - 5 Gorffennaf / July
9	23 Mehefin / June - 5 Gorffennaf / July